



tud 3	tud 4 / 9	tud 10	tud 12
Pobl a Phethe	Ysgolion	Llyfrau	Chwaraeon

BUDDUGOLIAETH

Bu nifer o ddisgyblion ysgol a myfyrwyr o ardal *Papur Pawb* yn protestio'n ddiweddar yn erbyn penderfyniad Llywodraeth Prydain i godi ffioedd dysgu myfyrwyr i hyd at £9,000 y flwyddyn.

Cynhaliwyd un o'r protestiadau yn Aberystwyth, ac fe ymunodd disgyblion Penweddig, a Phenglais â myfyrwyr y Brifysgol a'r Coleg Addysg Bellach i fynegi eu hanfodlonrwydd.

Cynhaliwyd darlithoedd ar y palmant cyn gorymdeithio i swyddfeydd y Rhyddfrydwyr Democrataidd, plaid a enillodd miloedd o bleidleisiau myfyrwyr yn yr Etholiad Cyffredinol trwy addo peidio â chodi'r ffioedd. Bellach, yn rhan o'r glymblaid sy'n rheoli Prydain, maent wedi digio myfyrwyr, a darpar-fyfyrwyr, trwy wneud tro pedol a thorri eu gair.

Yn ôl Alexey Andreyevich Bogdanov, myfyriwr o Dal-y-bont, bwriad y protestiadau oedd cynnal darlithoedd a seminarau a gwneud gwaith adolygu ar y stryd er mwyn dangos fod addysg yn rhywbeth a ddylai fod ar gael i bawb am ddim.

Gyda chyhoeddiad y Gweinidog Addysg, Leighton Andrews, y byddai Llywodraeth Cymru yn talu unrhyw gynnydd yn ffioedd dysgu myfyrwyr Cymru, fe drodd y dichter yn llawenydd, gyda phobl ifanc Cymru, o leiaf, yn cael eu gwarchod rhag cynnydd yn eu ffioedd.

Wrth ymateb i'r datblygiadau diweddaraf, dywedodd un



rhiant, sydd â dau blentyn mewn Prifysgol, ei fod yn falch o safiad Llywodraeth y Cynulliad, ac yn gobeithio y byddai hynny hefyd yn arwain at newid meddwl yn Llundain. "Mae'n dda gweld bod Llywodraeth Cymru yn ddigon dewr i fynd yn groes i'r hyn sydd yn digwydd yn Lloegr, er lles ein pobl ifanc", meddai. "Credaf mai gallu yr unigolyn ddylai reoli os ydyw'n mynd i Brifysgol ai peidio, nid ei allu i dalu."

Ychwanegodd, "Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i'r holl fyfyrwyr o Loegr sydd mewn colegau yng Nghymru bleidleisio yn eu hetholaethau cartref o hyn ymlaen, gan mai yno y gwneir y penderfyniadau sydd yn effeithio arnyn nhw".

Dathlu Cynnau Goleuadau Tal-y-bont



tud 7

Côr Ysgol Tal-y-bont yn diddanu'r dorf yn ystod seremoni Cynnau Goleuadau Ceulanamaesmawr. Ewch i dudalen 7 am yr hanes yn llawn.

Trefn Casglu Sbwriel Newydd



Mae Cyngor Ceredigion wedi mabwysiadu trefn newydd o gasglu gwastraff cartref yn yr ardal. Cesglir deunydd ailgylchu a gwastraff bwyd yn wythnosol a sbwriel cyffredinol bob pythefnos. Byddai'n ddiddorol derbyn ymateb darllenwyr *Papur Pawb* i'r trefniadau newydd.





Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans (01970) 832473 Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Braddon
Tynnu lluniau: Telpeiddas:	
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL
Parsel Henllys:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Eglwysfarch:	Dilys Morgan, Alltgoch 832498
Taliesin:	Wendy Fuller, Pand, Ffwrnais (01654) 781312
Tal-y-bont:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin 832672
	Aileen Williams, Maesmeillion 832438
	Kathleen Richards, Y Bryn 832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429
	Janet Evans, Cefnweiriog (01654) 781260
Maes y Deri:	Erllys Jones, 91 Maes y Deri 832483
Cadeirydd:	CYMDDEITHAS PAPUR PAWB
Is-gadeirydd:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Ysgrifennydd:	Geraint Pugh, Dôl Pistyll 832433
Trysorydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont 832384
Aelodaeth:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont 832560
Hysbysebion:	Aileen Williams, Maesmeillion 832438
Plygu:	Wendy Fuller, Pand, Ffwrnais (01654) 781312
Dosbarthwyr:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Erllys Jones (Tlwygrffriddau)

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gortlewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyr

Llannerch,
Tal-y-bont

3 Rhagfyr 2010

Annwyl 'Pawb',

Rhaghysbys yw'r llythyr yma
i ofyn am gymorth darllenwyr
Papur Pawb.

Mae'n fwrriad cynnal 'Sadwrn
Iaith' yn Neuadd Goffa Tal-y-
bont ar ddydd Sadwrn 19 Chwe-
fror 2011 rhwng 10.30 – 3.30. Yn
ystod y dydd bydd modd i bobl
droi mewn i roi cynnig ar ddysgu
ychydig o Gymraeg, ymarfer eu
Cymraeg drwy sgwrsio â siarad-
wyr Cymraeg, neu roi cychwyn
ar ddod i wybod ychydig mwy
am ein diwylliant.

Bydd y diwrnod yn hwyl ac yn
gyfle i newydd-ddyfodiaid i'r ar-
dal ddod i'n hadnabod ni ychydig
yn well ac i ddeall ein pryder am
freuder ein hiaith a'n diwylliant
Cymraeg ynghyd â'r rôl gadarn-
haol y gallent eu chwarae yn
ffyniant a pharhad y Gymraeg yn

yr ardal yma.

Oes modd i chi dynnu sylw cym-
dogion a ffrindiau at y diwrnod
yma os gwelwch yn dda. Mae'n
bosib ei werthu fel adduned blw-
yddyn newydd, i roi siawns go
iawn ar ddechrau dysgu Cymraeg
a hynny am ddim. Yn ogystal â
hyn, ym Mhapur Pawb mis Ion-
awr, fe fydd hysbyseb llawnach
yn ymddangos. Bydd modd torri
hwn allan a'i roi i gymydog neu
ffrind

Os ydech eisiau mynd cam ym-
hellach a chynnig cymorth cyn
neu yn ystod y diwrnod rhowch
wybod.

Yn gywir

Medi 832725
llannerch@globalnet.ac.uk

Mared 832980
Mllwyd@hotmail.com

Alaw alawlewis@hotmail.com

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth o hyd
at £300 i **fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg**.
Dyma'r pumed tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth hon.

Amcanion ein Cymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng
y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac
arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru.

Diffinnir Brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan
ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar
gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr
Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu ychwaneg o wybodaeth cysylltwch â:
Medwen Charles, Maes Meini, Rhydychaf, Y Bala LL23 7SD.
maes.meini@lineone.net

Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2011

Dyddiadur

Rhagfyr

11 Clwb Nos Wener - Cinio
Nadolig Llanfihangel y
Creuddyn (Gyda John
Meredith) 7.30 ar gyfer 8.00

12 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth 12 Oedfa'r Plant
'Y Nadolig'

Rehoboth 10.30 Oedfa
Nadolig y Plant Yn Y Garn

14 Cyfarfod Chwiorydd
Rehoboth, 2 o'r gloch
Carolau gyda parti Elenid
Thomas

15 Cymdeithas Farddol
Tal-y-bont Y Llew Du 8 o'r
gloch

15 Gyrfa Chwist Ddofednod
(Cymdeithas y Sioe)
8.00 Neuadd Goffa Tal-y-
bont

15 OS METS yn canu carolau
yng nghartrefi Afallen Deg a
Thregerddan. 6.30

17 Eglwys Elerch Gwasanaeth
Carolau 6.00 o'r gloch

19 Bethel 10 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Parch Ifan
Mason Davies

Rehoboth 2 Bugail C)

24 Bethel Gwasanaeth Nadolig
yr Ysgol Sul 5.30 o'r gloch

25 Bethel 10 Gwasanaeth
Nadolig - Gweinidog

26 Bethel

Nasareth Oedfa'r Ofalaeth

Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth

Ionawr

2 Bethel 10 Gweinidog

Nasareth Uno ym Methel

Rehoboth 5 Bugail

5 Cymdeithas Farddol Tal-y-bont
Y Llew Du 8 o'r gloch

9 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 10 Bugail (C)

11 Cyfarfod Chwiorydd
Rehoboth Erwyd Howells
'Mab y Bryniau'

12 Pwyllgor y Neuadd Goffa
Neuadd 8 o'r gloch

14 Clwb Nos Wener
Dathlu Calan Hen gyda
Helen a Ruth

16 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth Uno ym Methel

Rehoboth 10 Rhyddian
Griffiths

17 Merched y Wawr Neuadd
Goffa. 'Ymfudo o Gymru i
Ohio' 7.30 (Menna Morgan)

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad
neu'ch sefydliad yn Nyddiadur
y Mis, dylech anfon y manylion
llawn at Glenys Edwards, Car-
treffe, Tal-y-bont (01970 832442)
E-bost: glenysedwards33@btint-
ernet.com o leiaf ddeng niwrnod
cyn i'r rhifyn nesaf o'r Papur
ymddangos.

CYNGERDD
gan
CÔR CF1 (Caerdydd)
yn y TABERNACL,
MACHYNLLETH
29 Ionawr 2012
7.30 o'r gloch
Mynediad £10

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

GYRFA CHWIST
DDOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Fercher 15 Rhagfyr
am 8 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Megan Mai a Phil
Davies, gyda Sion Pennant
yn dylunio. Golygyddion y
rhifyn nesaf fydd Bledwyn a
Delyth Huws (01970 832448)
huws.henllan@btinternet.
com. Dylai'r deunydd fod
yn llaw'r golygyddion erbyn
dydd Gwener 07 Ionawr.
Bydd y papur ar werth ddydd
Gwener, 14 Ionawr.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Gwasanaeth Sul y Cofio

Cynhaliwyd Gwasanaeth Sul y Cofio yn Neuadd Goffa Tal-y-bont fore Sul, 14 Tachwedd gyda chynulleidfia deilwng yn bresennol. Mr Keith Jones, Penparcau, darlennydd lleys gyda'r Eglwys yng Nghymru oedd yng ngofal rhannau arweiniol y gwasanaeth.

Darllenwyd y Gwynfydau gan y Cyng Nest Jenkins gyda Mrs Janet Morgan yn darllen rhan o'r Bymthegfed Bennod o Efengyl Ioan yn Saesneg. Ar ôl canu'r emyn Efengyl Tangnefedd a chlywed y Weithred Goffa, darllenwyd rhestr y gwroniaid o'r gymuned hon, a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd, gan Goronwy Jones. Chwaraewyd yr Utgorn Olaf ar y trwmpe a Chaniad y Bore ar ôl y Cymhelliad a'r ddwy funod o dawelwch, gan Steffan Thomas, yn broffesiynol iawn.

Gosodwyd y torchau pabi ar y coflechi gan Mrs Maureen Jenkins a Mr Bob Southgate gyda Mr Keith Jones yn arwain yn gynulleidfia yn y Weithred Draddodiad a phawb yn ymateb. Daeth y gwasanaeth i ben trwy ganu'r emyn O Dduw ein Nerth Mewn Oesoedd Gynt.

Mrs Glenys Edwards fu'n cyfeilio ar y piano a'r casgldydion oedd Mrs Eirlys Jones a Mr Johnny Southgate gyda chymorth Cai Thomas. Trosglwyddir y derbyniadau o £154.89c i Apêl Pabi'r Llang Brydeinig. Cydnabyddir yn ddiolchgar barodrydd y Cyngor Cymuned am ofalu am gost y torchau pabi eleni eto.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â Liz Spencer, Tŷ Manceinion, a'i theulu, ar ôl iddi gollu ei thad ym mis Tachwedd. Hefyd, â Vera Lewis, Pen Cae, sydd wedi

Pobl a Phethe

colli ei nith a oedd yn byw yn Llanwnnen, ger Llanbedr Pont Steffan.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Huw a Mair Rowlands, Erglodd, ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Eglwys Elerch

Cynhelir gwasanaeth carolau blynyddol Eglwys St.Pedr, Elerch ar nos Wener 17 Rhagfyr am 6.00 pm dan ofal y Parchg Ganon Stewart R. Bell, Rheithor Aberystwyth. Cyflwynir y casgliad eleni i elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Croeso cynnes i bawb.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i'n ficer Y Parchg John Livingstone, a gobeithiwn yn fawr ei weld yn ôl yn ein plith yn y flwyddyn newydd.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf i Mr Geraint Jones, Brynolwg, Bont-goch a'i deulu yn dilyn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Shân Jones, Tŷ'r banc, Bont-goch, ddiolch o galon i'w holl gleifion am eu cefnogaeth caredig yn dilyn cyfnod hir o wasanaeth fel ceiropo-

dydd gyda'r gwasanaeth iechyd. Bellach mae Shân yn gweithio fel partner ym musnes Gofal Traed Aber, 4 Y Porth Tywyll (East-gate), Aberystwyth. Dymunwn yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Beryl Rooke, Cefn Sidan, Ffwrnais sydd wedi colli ei brawd Mr Bert Fearn, Machynlleth yn ddiweddar.

Gwella

Yr ydym i gyd yn falch i glywed bod Mrs Sheila Haynes, Cefn Cottage, yn gwella ar ôl ei anhwylder diweddar.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Janet ac Alun Jones, Llwynglas, ar farwolaeth mam Janet, sef Mrs Eirlys Morris, Machynlleth ar 26 Tachwedd.

Ysbyty

Gobeithio fod Mr Jim Morgan, Maesmawr a Mrs Eluned Evans, Brynderw yn teimlo'n well ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Eurwen a Trefor Jones, Cwmcae, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ystod y mis.

Gŵyl Gerdd Dant

Braf oedd gweld Medi Evans ac Esther Ifan ar lwyfan yr ŵyl Gerdd Dant yn rhan o Driawd Penweddig. Llongyfarchiadau iddynt ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Prynhawn yn Aberystwyth a gafwyd ar ddydd Mawrth, 9 Tachwedd, ac i ddechrau aeth yr aelodau i gyflwyniad gan Bethan Gwanas yn y Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol, a chafwyd mwynhad wrth wrando arni'n sôn, ar lafar ac ar ffilm, am ei theithiau tramor wrth ffilmio cyfresi ar gyfer y teledu.

I ddilyn, aethom i weld swyddfeydd newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cawsom banded derbyniol wrth gyrraedd, ac yna cawsom adroddiad gan un o'r staff am waith y Cynulliad yng Nghymru, a'r hyn a wneir yn y swyddfa yn Aberystwyth. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Myfanwy Rowlands.

Nadolig Llawen


Hoffai Enid Williams gynt o Frondirion, Taliesin ddymuno Nadolig dedwydd iawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau yn yr ardal. Diolch i bawb am eu caredigrwydd drwy gydol y flwyddyn.

Nadolig Llawen

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i fy nheulu a'm ffrindiau oddi wrth Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont.

Ymwelwyr o Japan

Bob dwy flynedd bydd criw o bobl ifanc o Japan yn ymweld â'r ardal dan nawdd Cymdeithas Cyfeillgarwch Aberystwyth Yosano, ac eto eleni cafwyd cyfle i'w croesawu i wasanaeth arbennig ym Methel, Tal-y-bont. Roeddent yn ymweld â'r pentref i osod blodau ar fedd Mr Frank Evans. Bu Mr Evans yn garcharor yn Kaya yn ystod y rhyfel ond ar ôl maddau i'w elynion aeth ati i sefydlu'r Gymdeithas er mwyn gwella'r berthynas rhwng Cymru a Japan, a rhoi cyfle i ieuenctid y ddwy wlad ddod i adnabod ei gilydd.



Ysgol Tal-y-bont



Ymweld ag Ysgol Pen-weddig

Un dydd Gwener yn ystod y mis aeth Blwyddyn 5 a 6 i ddefnyddio un o stafelloedd Technoleg Gwybodaeth Ysgol Penweddig. Cawsom hwyl yn dysgu sut i ddefnyddio Powerpoint. Diolch i Mr Ifan a'r staff am adael i ni ymweld â'r ysgol.

Gala Nofio

Roedd hi'n hyfryd i weld cy-maint o blant Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu yn Gala Nofio flynyddol yr Urdd eleni eto. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar ddysgu nofio ac roedd gweld y plant yn cystadlu mor frwd yn erbyn plant o ysgolion eraill y sir yn ardderchog. Daeth nifer yn gyntaf, ail neu'n drydydd yn eu rasys ond heb fod yn ddigon cyflym i gynrychioli'r sir yn y Gala Genedlaethol.

Inui Fumi

Ers rhai blyneddodd bellach mae ysgolion uwchradd y sir wedi creu cysylltiadau gyda Siapan. Eleni roedd hi'n braf iawn cael croesawu Inui Fumi i Ysgol Tal-y-bont i gynnal sesiwn ar fwydydd traddodiadol o'r wlad ac roedd hi'n hwyl i gael gwersi ar sut i ddefnyddio "chopsticks". Rydym yn edrych ymlaen at goroesawu Inui yn ôl i'r ysgol yn Nhymor y Gwanwyn eto.

Gwyndaf Lloyd

Mae'r Heddlu wedi bod yn ymweld â'r ysgol yn ystod y mis i drafod nifer o faterion sy'n effeithio ar blant. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar

y ffordd orau o ymddwyn a sut i reoli emosiynau a pha mor bwysig yw dilyn rheolau o bob math.

Draig Ffynici

Cawsom ymweliad gan Arwyn o gwmni y Ddraig Ffynici yn ystod mis Tachwedd. Mae'n gweithio i asiantaeth sy'n cael ei ariannu gan Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno hawliau plant y Cenhedloedd Unedig i ddisgylbion ysgolion cynradd.

Jambori

Yn ystod y mis aeth plant Cyfnod Allweddol 2 i jambori blyneddol yr Urdd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Roedd hi'n hwyl cael ymuno gyda Gwenda Owen i ganu'r caneuon bywiog.

Plant Mewn Angen

I ymuno yn yr hwyl eleni fe wnaethom ni i gyd wisgo pyjamas (gan gynnwys y staff!). Codwyd dros £75 wrth brynu diod a chacen blasus a goginiwyd gan blant y Cyfnod Sylfaen.

Ymchwil S4C

Croesawyd aelod o staff S4C i'r ysgol i drafod rhaglenni plant y sianel. Roedd cael cyfle i fynegi barn yn brofiad gwerthfawr iawn i'r criw o blant Blwyddyn 6.

Panto Myrddin

Stori'r dewin Myrddin oedd testun Cwmni Mega eleni. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau'r cyfle i weld yr action, y canu a'r dawnsio yn Theatr y Werin. Diolch i'r Gymdeithas Rieni am gyfrannu'n hael at y costau.

Cystadleuaeth y Dynfa Fawr

Llongyfarchiadau mawr i Gemma Burnham am lwyddo i ennill gwobr yn y gystadleuaeth arlunio blynyddol. Gwych Gemma.

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth

Yn ddiweddar cynhaliwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth ar y cyd rhwng Ysgol Tal-y-bont ac Ysgol Llangynfelyn ar y thema "Ffermio". Hoffwn ddiolch i bawb am gystadlu ac yn arbennig i Ruth Jên am gy-tuno i feirniadu. Rydym yn

gobeithio y bydd y lluniau'n cael eu harddangos yn siop Occula yn Aberystwyth yn fuan. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr

1af – Seren Taylor, Ysgol Tal-y-bont

2il – Seamus Byrne, Ysgol Llangynfelyn

3ydd – Ffion Hicks, Ysgol Llangynfelyn / Elen Hughes, Ysgol Tal-y-bont

Cofiwch ymuno â ni ar gyfer ein panto yn y Neuadd Goffa am 6.30 nos Iau, Rhagfyr 9fed ac yna am ddiod a mins pei nôl yn yr ysgol.



*Hmmm... Tybed pa un ga i nesa?
Rhai o blant y Cyfnod Sylfaen fu'n coginio ar gyfer diwrnod
Plant Mewn Angen*



*"Ydych chi'n bihafio?"
Ymweliad Gwyndaf y Plisman (Uchod)*



*Gemma Burnham
Enillydd y gystadleuaeth arlunio
flynyddol (Chwith)*

FFAIR Y NEUADD



Glenys a Goronwy wrth fwrdd y Raffl Fawr

Cafwyd prynhawn difyr a llwyddiannus ar 27ain Tachwedd wrth i gefnogwyr Neuadd Goffa Tal-y-bont ddod at ei gilydd i gynnal y Ffair Nadolig. Wrth i'r tywydd rhewllyd a'r amodau gyrru peryglus daro'r ardal daeth mwy nag arfer trwy ddrws y Neuadd i fwynhau'r achlysur.

Diolch i ymdrechion lluo o fudiadau lleol llwyddwyd i godi £1,140 a fydd o gymorth eto eleni i gadw'r costau llogi i lawr ac i dalu am gynnal a chadw'r adeilad. Roedd hi'n braf croesawu stondin newydd eleni wrth i Glocswyr Ceulan baratoi cacennau hyfryd ar ein cyfer, a gweld ffyddloniad Sefydliad y Merched yn ôl wedi bwlch o flwyddyn.

Y mudiadau eraill a fu wrthi oedd Pwyllgor y Sioe a'r Cŵn Defaid, Cymdeithas Papur Pawb, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol, Merched y Wawr, Clwb Ffermwyr Ifanc, a'r Clwb Ieuencid, gydag aelodau'r pwyllgor yn gyfrifol am y raffl fawr.



Criw Glocswyr Ceulan a'u cacennau campus

Wrth ddiolch i bawb am eu cymorth, fe wnaeth y cadeirydd, Phil Davies, ddiolch yn arbennig i'r rhai a fu'n gyfrifol am baratoi'r te prynhawn o dan arweiniad Myfanwy James (a fu hefyd yn gyfrifol am gystadleuaeth enwi'r ddoli) ac i'r swyddo-

gion ac aelodau'r pwyllgor am eu gwaith diflino.

Gyda blwyddyn arall yn dirwyn i ben gallwn ymfalchïo yn yr adnoddau sydd gennym yn y Neuadd Goffa, ac yng nghefnogaeth y gymuned gyfan.

Cangen Plaid Cymru Tal-y-bont

Cafwyd seiat ddifyr yn y Llew Du ar nos Wener 12 Tachwedd pan gynhaliwyd noson Hawl i Holi. Aelodau brwdfrydig y panel oedd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones AC, Simon Thomas, prif ymgeisydd Plaid Cymru ar restr Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Etholiadau'r Cynulliad flwyddyn nesaf a Dr Huw Lewis o adran Wleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth.

Trafodwyd ystod eang o bynciau gwahanol yn amrywio o ffioedd myfyrwyr, addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a phryderon am ffyniant busnesau bach yng nghanol tref Aberystwyth. Achubwyd ar y cyfle hefyd i gyflwyno siec o £500 ar ran y gangen tuag at Ymgyrch Elin Jones yn Etholiadau'r Cynulliad yn 2011.



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

*Gofynnwch am bampffled
 rhad ac am ddim*

James Memorials
 Vicarage Crossing,
 Llandre, Bow Street
 Ffôn: (01970) 820 111



Eich Arbennigwr Celf a Fframio Lleol

Peter Fleming
 High Street, North, SY24 3JZ
 Tel: 01970 871 042



Y Ffermwyr Ifanc yn paratoi'r Tombola



Efeilliad Malcolm a Tanwen yn eu Ffair Nadolig gyntaf

MERCHED Y WAWR

Mae mwyr na ychydig o wirionedd yn yr hen ystrydeb bod y ddau gwestiwn cyntaf mae Cymry yn gofyn i ddieithryn yw "O ble dech chi'n dod ac i bwy ydech chi'n perthyn". Ond faint ohonom sydd yn medru ateb y cwestiynau am ein hunain. Nos Lun 15ed o Dachwedd cafodd aelodau MYW ganllawiau diddorol a defnyddiol am sut i ddod o hyd i'r atebion.

Pleser mawr mawr oedd cael croesawu Miss Mair Jenkins a Mrs Mary Thomas i sôn am Hel Achau gyda chyflwyniad bywiog gyda help lluniau a dogfennau hanesyddol cawsom bob cyfarwyddyd i'n gosod ar y ffordd. Pwy bynnag ydych, mae gan eich teulu hanes hir a mae pob person mewn sefyllfa unigryw i olrhain hanes ei gyndeidiau. Diolchwyd gan Elizabeth Evans ar ran pawb am noson hynod o ddiddorol.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llan-Gwener
(01970) 832 674

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

CANOLFAN
M.O.T.
**HUW
LEWIS**
M.O.T.
CENTRE

Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

TEIARS
**HUW
LEWIS**
TYRES

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.

Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan

ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



BFGoodrich

KUMHO TYRES

Ffôn 01970 636774

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON



GERAINT JAMES

Ffôn: 01970 612459 Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

MID WALES STORAGE

STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA
DODREFN



STORFA FUSNES
ARCHIFAU



STORFA I
FYFYRWYR



PACEDU



DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592

Naws y Nadolig



Y Pedwarawd Pres

Steffan Thomas, Carwyn Hughes, ac Osian a Rhun Penri

Eleni eto, am y bumed flwyddyn yn olynol, trefnodd Cyngor Ceulanamaesmawr seremoni i gynnu goleuadau Nadolig y pentref. Daeth tyrfa fawr ynghyd i'r Neuadd Goffa nos Iau 2 Rhagfyr i fwynhau'r achlysur, dan arweiniad y Cyngorydd Ellen ap Gwynn.

Yn anffodus, oherwydd y tywydd rhewllyd a gafwyd yn ddiweddar, nid oedd coeden Nadolig y tu allan i'r Tabernacl, ond roedd goleuadau'n addurno'r Neuadd Goffa fel arfer, ac mae Dilwyn Lewis, Penrhyn-coch, yn gobethio trefnu coeden cyn gynted ag y bydd yr amgylchiadau'n caniatáu. Edrychir ymlaen yn fawr at weld y goeden wedi'i haddurno â goleuadau newydd sbon eleni.

Crewyd naws Nadoligaidd hyfryd gan blant a phobl ifanc yr ardal wrth iddynt gyflwyno

eitemau cerddorol yn raenus dros ben: pedwarawd pres (Steffan Thomas, Carwyn Hughes, ac Osian a Rhun Penri), unawd piano gan Leri Hughes, deuawd gan Glain Llwyd Davies a Heledd Davies ac eitemau gan barti o Ysgol Tal-y-bont dan arweiniad Manon Mai Rhys. Ar ddiwedd y cyngerdd, ymunodd y gynulleiddfa i ganu dwy garol, gyda Falyri Jenkins yn cyfeilio.

Cyn mentro'n ôl allan i'r oerfel, cafodd pawb gyfle i fwynhau clonc a chwmniâeth ei gilydd dros wydraid o bwnsh twym a mins pei, wedi'u paratoi gan y Cynghorwyr Glenys Edwards a Nest Jenkins gyda chymorth gan lu o wirfoddolwyr. Dymuna'r Cyngor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r achlysur, ac am bob help a gafwyd.



Parti Canu Ysgol Tal-y-bont

Nadolig Llawn

Mae John Davies, Dolcletwr yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i'w gyfeillion i gyd.

RHAGFYR 24, 5.30

GWASANAETH NADOLIG YSGOL SUL BETHEL

Cynhelir ail hanner y gwasanaeth mewn adeiladau allanol.

Dewch a llusern neu fflachlamp

Elin Jones AC - O'r Cynulliad

Mae hi wedi bod yn fis prysur arall gyda nifer o ddigwyddiadau hyd a lled Ceredigion a thu hwnt. Ymysg newyddion mawr y mis oedd clywed bwriad y Llywodraeth yn Llundain i orfodi S4C i dderbyn toriadau enfawr ac yna eu gosod dan adain y BBC gan wir beryglu dyfodol ein sianel a darlledu Cymraeg o ganlyniad i'r fath penderfyniad. Cafodd y penderfyniad ei wneud heb unrhyw drafodaeth gyda chyfarwyddwyr S4C na'r Cynulliad, diffyg parch llwyr i'r rhai fu'n cofio'r frwydr



dros sefydlu'r sianel. Ar fore Sadwrn y 6ed o Dachwedd, mynychais rali 'Na i doriadau, Ie i S4C newydd' yng Nghaerdydd, daeth dros 2,000 ynghyd a da oedd gweld cymaint o drigolion Geredigion oedd wedi teithio lawr i fynychu'r rali.

Mae'r gyllideb wedi ennyn cryn drafodaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac mae'r toriadau i gyllideb Cymru wedi gorfodi Llywodraeth y Cynulliad i wneud penderfyniadau anodd iawn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn mwy o doriad i'r gyllideb oddi wrth y Trysorlys na llywodraethau Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Serch hynny, rwyf yn falch o'r ffaith fod y gyllideb ar gyfer ysgolion, ysbytai a gofal cymdeithasol, sgiliau a chynlluniau eraill, megis llaeth am ddim mewn ysgolion a phas-bws i'r henoed i gyd wedi eu gwarchod.

Daeth i'r adeg hwnnw o'r flwyddyn i gofio am y rhyfeloedd a fu, ac ar fore Sul, y 13eg o Dachwedd, mynychais wasanaethau Sul y Cofio yn Aberystwyth a Phenparcau.

Cefais hefyd wahoddiad i agor swyddfa newydd NFU Cymru yn Aberystwyth. Braf oedd gweld nifer o wynebau cyfarwydd a dymuniadau gorau i'r staff sy'n gweithio o'r swyddfa newydd.

Y Clwb Clocio



Sefydlwyd Clwb Clocio Ceulan yn ddiweddar, ac ar nos Sadwrn, Tachwedd 27ain, er yr holl rhew a'r eira, cynhaliwyd eu digwyddiad cyntaf, sef Twmpath yn Nhal-y-bont. Rhwng yr holl ddawnsio cafwyd gwledd o adloniant gan Glocswyr Ceulan, Sam Ebenezer ac Elen Thomas a'u cyfeilyddion hwythau, Meinir Edwards a Fal Jenkins. Diolch i'r chwaraewr accordian, Bryan o Benrhyn-coch ac Ian, Dil a Frances o Ddawnsyr Delyn am gerddoriaeth gwerin byw a oedd yn goron ar y cyfan. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, ac i bwyllgor Glwb Clocio Ceulan am drefnu'r cyfan a pharatoi bywyd hyfryd. Bydd Twmpath arall yn cael ei drefnu yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser, croeso mawr i blant ifanc y pentref ddod i ymuno â Chlwb Clocio Ceulan bob nos Fercher am 7.30 yn y Neuadd Goffa.



CYNGOR CYMUNED CEULANAMAESMAWR

Estynnodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Gerwyn Jones, groeso i'r aelodau hynny oedd wedi llwyddo i gyrraedd y cyfarfod ar nos Lun 29 Tachwedd a hithau'n noson mor arw.

Adroddwyd fod amcangyfrif ysgrifenedig wedi ei dderbyn oddi wrth Orford & Rowell, Ysgubor-y-Saer, Eglwysfach, am adeiladu hysbysfwrdd yn Bontgoch. Cytunwyd i fwrw ymlaen i archebu'r hysbysfwrdd.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad byr o'r cyfarfod buddiol a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng cynrychiolwyr Cyngorau Bro rhan mwyaf gogleddol Ceredigion â Phrif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor Sir. Da deall gan y Cyngorydd Ellen ap Gwynn nad oedd y setliad ariannol i Gyngor Sir Ceredigion cynddrwg ag roedd swyddogion y Cyngor Sir wedi ofni. Cyflwynodd y Cyngorwyr Evan Evans ac Enoc Jenkins adroddiad ar fanteision Menter Mynyddoedd Cambrian i fusnesau lleol, yn dilyn cyflwyniad a glywsant mewn cyfarfod yn yr Hafod Arms, Pontarfynach, yn ddiweddar.

Cymeradwywyd argymhellion Is-bwyllgor y Fynwent i wahodd tendrau ar gyfer tir pori/lladd gwair ynghan isaf y fynwent. Gellir cael rhagor o fanylion am y telerau gan Glere y Cyngor. Dyddiad cau derbynynigion fydd 7 Ionawr 2011.

Darllenwyd ateb a dderbyniwyd oddi wrth Lyn Llywelyn, Dirprwy Prif Weithredwr Un Llais Cymru, yn ymddiheuro am y diffyg trefn yn eu Cyfarfod Blynnyddol yn ddiweddar ac yn sicrhau'r Cyngor na fydd hyn yn cael ei ailadrodd y flwyddyn nesaf.

Adroddwyd fod y gwaith o osod wyneb newydd ar y ffordd a'r llwybr yn Dôl Pistyll wedi ei gwblhau, ond nad yw'r gwaith o glirio'r sbwriel adeiladu o'r stad wedi ei wneud mor belled.

Derbyniwyd gwahoddiad i gymryd rhan mewn arolwg sy'n casglu barn trigolion Ceredigion am ddulliau i sicrhau cymdeithas ddiogel, gyfiawn a goddefgar ar gyfer y rhai sy'n byw, yn gweithio neu yn ymweld â'r sir. Hefyd, ymatebodd y Cyngor i ddau arolwg sef un gan y Cynulliad Cenedlaethol ar Gyngorau

Bro a Thref ac un arall gan ganolfan ymchwil Arsyllfa Wledig Cymru ar y nifer ac ansawdd y gwasanaethau a geir yn lleol.

Darllenwyd llythyr oddi wrth Gyngor Ceredigion yn adrodd eu bod am osod bin graenu ychwanegol naill ai ar y ffordd drwy Cwm Ceulan neu trwy Gwm Eleri. Cytunodd y Clerc i gadarnhau ble yn union y gosodir y bin, a holi hefyd pa siawns sydd yna o osod rhagor o finiau graeanu o amgylch y pentref.

Adroddwyd fod yr Awdurdod Cynllunio wedi caniatáu'r ceisiadau canlynol: estyniad i'r anabl yn Penlonlas ac estyniad i Glanaber.

Adroddodd y Clerc fod Ffurflen Ariannol Blynnyddol 2009/10 wedi derbyn sêl bendith yr archwilywyr allanol. Cytunwyd i ailgymeradwyo Adran 1 ac Adran 2 o'r adroddiad gwreiddiol yn unol â'r gofynion. Cyflwynwyd copi drafft o gyllideb 2011/12 i'r aelodau, ynghyd ag adroddiad o wariant y Cyngor mor belled yn y flwyddyn gyfredol. Bydd cyfle i drafod a chadarnhau'r gyllideb a phennu archebiant yng nghyfarfod mis Ionawr.

Ymhlith y cwynion a dderbyniwyd roedd y canlynol: pobl yn gadael sbwriel ger y fynedfa i'r goedwig ar ffordd Pentrebach; lledu'r fynedfa i Faes-y-deri gyferbyn â'r Cae Bach; dwr yn rhedeg o'r cae ar draws y llwybr o Faes y Llan at Felin Pompren; dwr yn llifo o ganol y ffordd ger Gwarcwm Uchaf; baw cwn yn stad Dôl Pistyll, a pharcio peryglus ger y fynedfa i'r stad. Cytunwyd i dynnu sylw'r awdurdodau perthnasol at bob un o'r problemau hyn.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Tendr Tir Pori Defaid

/ Cynaeafu Gwair

(Y Fynwent Gyhoeddus)

Dyddiad Cau: 7 Ionawr

2011

Am ragor o fanylion a ffurflen gais cysylltwch â:

Y Clerc,
Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr,
Pengwern,
Tal-y-bont,
SY24 5EN

C.F.F.I. TAL-Y-BONT

'Gwell flas, hir aros' ma nhw'n gweud felly dyma i chi bwt am Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont gan nad ydych chi wedi clywed ganddo ni ers sbell!

Dros gyfnod yr haf, daeth llwyddiant i Dal-y-bont tra'n cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol. Gareth Ynyseidiol yn cael 2ail yn yr adran grefft. Eifion Cerrigaranau yn cael trydydd yn yr adran 26ain oed neu iau ac yn cyfrannu at wob'r gyntaf y tîm Barnu Moch. Aled Llyr yn ennill ei adran 26ain oed neu iau ac am roi ei resymau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Barnu Defaid Mynydd Duon Cymreig gyda Gwion Tanllan yn cystadlu dan 16 oed gan ddod yn ail fel tîm. Geraint Cerrigaranau yn ennill yr adran 26ain oed neu iau ac yn cael 4ydd fel tîm yn y Barnu Gwartheg Godro. Rhydian Tynant yn ennill cystadleuaeth cneifio 26ain oed neu iau ac yn cael y 4ydd safle fel tîm. Roedd y barnwyr stoc yn 2ail ar ddiwedd y dydd.

Daeth llwyddiant i Aled Llyr yn Nhreialon Cwn Defaid y Sir ddechrau Awst. Cafwyd stondin yn Sioe Tal-y-bont, gyda Gwyn Jenkins, Maesgwyn a Gareth Ynyseidiol yn dyfalu'n gywir a rhannu'r wob'r!

Dechreuodd y tymor newydd efo Derrick Ty'nddraenen ac Ifor yn gwneud sosial fach – efo cwplach o aelodau newydd, mae'n argoeli i fod yn flwyddyn dda! Daeth Nerys, ein Swyddog Bro i gynnal noson gymdeithasol, a Helfa Drysor yr wythnos wedyn! Aethom draw i Benrhyn-coch i gael ymarferion Chwaraeon Dan

Do, yna daeth Gwennan a Lowri, a fu ar daith dramor ar y Rali Ewropeaidd trwy GFFI Cymru. Mewn byr o amser, 'roedd hi'n amser ymarferion Eisteddfod! Efallai i chi weld ambell wyneb cyfarwydd ar y teledu yn ddiweddar – Geraint Cerrigaranau a Dewi Ty'n Graig wedi cael llwyddiant yn Eisteddfod CFFI Cymru a chipio'r ail safle am Bwletin Newyddion. Roedd hyn wrth gwrs yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod Ceredigion, yn Llambled. Hefyd cafodd Elen Thomas ein cantores lwyddiant trwy gipio'r cwpan am y cantores orau am y 4ydd tro! Llongyfarchiadau mawr i Elen!

Er mwyn ymlacio wedi'r gwaith caled i gyd, cafwyd noson tân gwyllt trwy garedigrwydd teulu Evans, Tynant eleni eto, braf oedd gweld yr awyr yn lliwgar, a byrgys ym moliau pawb! Bu lot o grafu pen yng Nghwis y Sir yn fuan wedi hynny – bydd y canlyniad allan cyn bo hir. Yna, cafwyd noson sinema i'r aelodau.

Daeth llwyddiant i Dewi Ty'n Graig wrth gael cynrychioli'r Sir yn y Barnu Biff dan 18 oed yn y Ffair Aaaf yn Llanellwedd ddechrau'r mis.

Cofiwch wrando am ganu swynol yr aelodau'n fuan – ma'r 'Dolig yn dod, a thymor Canu Carolau! E.J.

Dofednod Cwmtynant



Dofednod ffres o fferm leol.
Archebwch wydd, twrci, hwyaden neu gwy iâr erbyn y Nadolig Cysylltwch â Dilwyn, Marion, Rhydian neu Elgan Evans
Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257

Os am daci neu fws mini CAMBRIAN CABS

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292





Tîm Plismona Ieuenctid Aberystwyth

Llongyfarchiadau i Deri Rose am gael ei ddewis i fod yn aelod o Dîm Plismona Ieuenctid Aberystwyth. Mae Deri eisoes wedi ymweld â Gorsaf yr Heddlu yn Aberystwyth a bydd yn adrodd yn nôl i weddill plant yr ysgol am ei brofiadau.

Gala Nofio'r Urdd Rhanbarth Ceredigion

Aeth wyth o ddisgyblion yr ysgol i Ganolfan Hamdden Plas-crug i gynrychioli'r ysgol yng Ngala Nofio Urdd, Rhanbarth Ceredigion. Llongyfarchiadau mawr i Nansi Dingle a ddaeth yn gyntaf yn y Ras Broga i ferched Blynnyddoedd 5 a 6. Bydd Nansi yn cynrychioli Ceredigion yn y Gala Cenedlaethol ym Mwll Nofio Rhyngwladol Caerdydd ym mis Ionawr.

Parti Tân Gwylt

Cynhaliwyd Parti Tân Gwylt yn yr ysgol i ddathlu Noson Guto Ffowc. Diolchwn i aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu gwaith caled yn trefnu'r noson. Codwyd digon o arian i dalu am ein trip blynnyddol i'r sinema ac am gost y bws i'r ymweliad i Theatr y Werin i weld y pantomeim 'Myrddin'.

Ymweliad â Fferm Bryngwyn Mawr

Aeth Dosbarth Mrs Nelmes ar ymweliad i Fferm Bryngwyn Mawr, Dole yn ddiweddar fel rhan o'u gwaith ar ffermio. Cafwyd cyfle i ddysgu am yr anifeiliaid, i weld y tractorau a'r beiciau cwad ac i fynd am dro o gwmpas y caeau. Diolchwn i Ffor a Margaret Mason am eu croeso ac am eu parodrwydd i ateb cwestiynau'r plant.

Ysgol Llangynfelyn



Deri Rose
(Uchod)

Ymweliad Miss Rhian
Davies y Milfeddyg
(Chwith)

Nofwyr yr Urdd
(Isod)

Gweithgareddau Siapanaeg

Daeth athrawes o Japan i gynnal brynhawn o weithgareddau gyda Dosbarth Miss Davies ym mis Tachwedd. Dysgodd y plant am Japan a chafwyd cyfle i ddysgu sut i wneud siapau origami.

Ymweliad Milfeddyg

Croesawyd Miss Rhian Davies i Ddosbarth Mrs Nelmes i siarad am ei gwaith fel milfeddyg. Gofynnodd y plant lawer o gwestiynau iddi am ei gwaith ac am sut i edrych ar ôl anifeiliaid. Edrychodd Rhian ar Liwsi, mochyn cwta'r dosbarth a braf oedd clywed fod Liwsi'n iachus iawn!

Plant Mewn Angen

Ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen, daeth y plant a'r staff yn eu pyjamas i'r ysgol. Casglwyd £40 drwy werthu cacennau Pudsey a diod amser chwarae.



Ffarwelio

Rydym yn ffarwelio â Mrs Phyllis Ellis ar ddiwedd y tymor wrth iddi adael ei swydd yn helpu Mrs Lisa Byrne yn y gegin. Diolchwn iddi am ei blynnyddoedd hir o waith yn y gegin. Nid ydym yn ffarwelio â hi yn gyfan gwbl gan ei bydd dal yn gweithio yn y Clwb Brecwast. Ffarweliwn hefyd â Miss Gwenno

Davies, myfyrwraig o Brifysgol Bangor. Bu Gwenno'n gwneud ei Ymarfer Dysgu gyda'r Cyfnod Sylfaen yn Nosbarth Mrs Nelmes. Dymunwn bob hwyl iddi ar ei Ymarfer Dysgu nesaf a diolchwn yn fawr iawn iddi am ei gwaith caled yn dysgu'r plant lleiaf.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com




Ymweliad â Fferm Bryngwyn Mawr



Byw yn y Wlad / Life in the Countryside

Mae cyfrol ddiweddaraf Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont yn gofnod gwledol o fywyd yng nghefn gwlad Cymru rhwng 1850 a heddiw. Mae Gwyn wedi tynnu casgliad arbennig iawn o ffotograffau ynghyd i groniclo'r newidiadau a'r datblygiadau yn y byd amaeth a chefn gwlad yn gyffredinol dros y ganrif a hanner diwethaf.

Yn gyfrol ddwyieithog, mae *Byw yn y Wlad / Life in the Countryside* yn cynnwys dros 160 o ffotograffau deniadol o bob cwr o Gymru. I gychwyn mae yma luniau o bobl wrth eu gwaith, ffermwyr a chrefftwyr cefn gwlad megis y teiliwr, y cowper a'r gof. Y gof gyda llaw yw John Morgan Tal-y-bont, tad y diweddar Mr Johnny Morgan. Yr Efail. Gan fod pawb wrth eu gwaith cawn gyfle hefyd i weld peiriannau sy bellach yn angof - yr injan wair a'r injan ddyrmu a'r beindar. Uwchben y tyddynwyr a'r ffermwyr roedd y byddygion a'r meistri tir ac mae 'na nifer dda o luniau o rhain - er enghraifft Pryse Pryse Pryse yn arwain helfa enwog Gogerddan tu allan i Lodge Park Tre'r Ddôl. Wrth bori drwy'r gyfrol daw'n glir nad gwaith oedd y cyfan i'r werin - deuai cyfleoedd (prin mae'n siŵr)



i hamddena ac mae yma luniau o dripiâu ysgol Sul, pasiantau pentref ac eisteddfodau.

Daw'r lluniau trawiadol yn bennaf o gasgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol, gan gynnwys lluniau gan ffotograffwyr adnabyddus fel John Thomas, Geoff Charles a'r ffotograffydd o Dal y bont E O Jones. Er mor wych yw'r ymgais i daflu golwg yn ôl mae *Byw yn y Wlad* yn llawer mwy na chyfnod hanesyddol. Mae Gwyn hefyd wedi cynnwys nifer o luniau o'r unfed ganrif ar hugain drwy fynd ar alw ambell i ffotograffydd cyfoes fel Marian Delyth ac Arvid Parry-Jones. Mae yma felly gip olwg ar gefn gwlad heddiw trwy luniau o ddigwyddiadau cyfoes megis y mwd a'r llaca ar Faes y Sioe fawr y llynedd - y rhan helaeth o'r lluniau modern mewn lliw

O dan bob llun ceir capsiwn

Llyfrau

- geiriau sy'n cyfoethogi'r llun ac yn aml yn wers hanes mewn cwta dwy neu dair brawddeg. Dyma weision Plas y Faenol yn eu lifrai ac yna'r ychydig eiriau sy'n adrodd cyfrolau - deuai'r coetsmyrn a'r gweision lifrog o Loegr neu o'r gogledd ddwyrain. Job llawer rhy grand i'r Cymry cyffredin!

Mae Gwyn yn cydnabod ei ddyled i Gwilym Jenkins Llety'r Bugail. Fe fu'r ddau yn mynd drwy'r lluniau ac fe gafwyd eglurhad gwerthfawr gan Gwilym am beth oedd yn digwydd gyda'r peiriannau a'r ceffylau.

Gyda'r datblygiadau mewn amaethu a thrafnidiaeth yng nghefn gwlad Cymru, mae'r gyfrol hyfryd hon yn gofnod o fywyd Cymreig sy'n prysur ddiplannu. Cyfrol i ddiddanu a mwynhau yw *Byw yn y Wlad* - troi'r tudalennau a chael eich synnu a'ch swyno. Dim ond un peth sy'n tristau - mod innau erbyn hyn yn ddigon hen i gofio'r injan wair, y beindar, y stacanno a'r pothelli ar y dwylo!

Anrheg berffaith i'r Nadolig ac i ennill copi o *Byw yn y Wlad* y cyfan sy angen gwneud yw ateb y cwestiwn - Beth ar lafar gwlad oedd enw helfa Gogerddan? Atebion i'r Golygydd Cyffredinol.

Lansio Cyfrol Bledwyn



Dathlwyd cyhoeddi cyfrol newydd Dr Bledwyn Owen Huws mewn seremoni yn yr Hen Goleg, Aberystwyth, pan gyflwynwyd copi o'r gyfrol iddo gan y Prifardd Dafydd John Pritchard ar ran y cyhoeddwr, Barddas.

Casgliad yw *Diflanedig Fyd - Gohebiaeth Carneddog a Gwallter Llyfni, 1926-1932* o 95 o lythyrau personol dau fardd a llenor gwlad o Eryri a garai Gymru a'r Gymraeg yn angerddol. Yn ogystal â thafu goleuni gwerthfawr ar ddiwylliant llenyddol gwerinol y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd, rhydd yr ohebiaeth flasus hon inni olwg ar berthynas hwyliog dau gyfaill triw. Cawn gyfle i glywed am hyd a lled eu diddordebau, eu helynntion a'u hofnau, eu gobeithion a'u siomedigaethau. Cawn hefyd glywed eu barn ddi-flewyn-ar-dafod am rai pobl a digwyddiadau, ac am fywyd yn gyffredinol.

Ceir yma gip difyr ar bennod yn hanes diwylliant gwledig y Gymru Gymraeg pan oedd gwerinwyr digoleg yn cynnal y Pethe. Trwy ddarllen y llythyrau hyn ceir y pleser o glywed lleisiau Carneddog a Gwallter megis yn llefaru eto, a hynny mewn Cymraeg rhywiog. Llongyfarchiadau i Bledwyn ar ei waith yn didol y fath gyfoeth ar ein cyfer.

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

CYSTADLEUAETH RHIFYN RHAGFYR

Er mwyn ennill copi o nofel ffantasi Hywel Griffiths i bobl ifanc, *Dirgelwch y Bont* (Gwasg Gomer) atebwch y cwestiwn canlynol.

Pa arwr cenedlaethol sy'n ymddangos yn y nofel?

Atebion i'r Golygydd Cyffredinol, Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 7 Ionawr
post@garnwen.org.uk 01970 832473.

Yr ateb cywir cyntaf o'r het sy'n ennill.

CYSTADLEUAETH RHIFYN TACHWEDD

Enillydd copi o lyfr Richard E. Huws, *Caneris Melyn Trefeurig* yw Elliw Jenkins, Tanrallt, Tal-y-bont.

Yr ateb cywir: Norwich City

HUMPHREY JONES AC EVAN OWEN

Bob tro y byddwn yn seiadu yng nghwmni un o'm haelodau yn Saron, Llanwrin, Elizabeth Jane Williams, Maesciriau a Llety'r Bugail, cyn ei marw ddiwedd Awst o fewn pythefnos i fod yn 90 oed, roedd wrth ei bodd yn dwyn i gof hanes diddorol ei thylwyth a theulu'i diweddar briod Dewi, un o feibion Tŷ Pella, Llanbryn-mair. Roedd Dewi wedi dod i Faesciriau yn ifanc i weini gyda pherthynas iddo, Dafydd mab Hugh a Margaret Edwards. Roedd Margaret yn ferch i Evan ac Ann Owen, Tŷ Mawr, Ceulan ac roedd ganddi o leiaf ddau frawd, dau a aeth i'r weinidogaeth gyda'r Annibynwyr. Gyda llaw, priododd Elizabeth wyres Evan ac Ann Owen â Rowland Breese, brawd i Mary Richards fy mam-gu.

Roedd y brodyr John ac Evan wedi'i geni yn Nhŷ Mawr ond, wedi symud i Warcwm Uchaf, y ganed Margaret. Yn ddiweddarach symudwyd i'r Morben Mawr, Derwenlas, ac yna i Ben-lan, Aberllefenni. Gwelir enwau'r brodyr ymhlith y rhestr anrhydeddus o 32 o fechgyn a godwyd i'r weinidogaeth ym Methel, Tal-y-bont (cododd 29 hefyd yn y Tabernacl drws nesaf), yn y llyfryn a gyhoeddwyd ym 1953 i ddathlu'r canmlwydd a hanner, a olygwyd gan y Parchg D. Morlais Jones. Derbyniwyd John, a aned ym 1820, yn aelod ym Methel ym 1839 gan Moses Ellis y gweinidog ar y pryd, ac ymhen dwy flynedd aeth yn fyfyrwr i Athrofa'r Bala, oedd newydd gael ei symud o'r Weirglodd Wen Llanuwchllyn gan Michael Jones gweinidog enwog yr Hen Gapel a thad Michael D. Ym 1845 urddwyd John yn weinidog yn Hebron Llŷn, gan symud wedyn i Nefyn, Llanegryn a Smyrna Llangefni lle bu farw ym 1887.

Dilynodd Evan ei frawd i Goleg y Bala ac ar derfyn ei hyf-

forddiant mudodd ef a'i wraig Elizabeth (merch Richard a Mary Morgan, Felin-fach, Tal-y-bont) i America i weinidogaethu yn Eglwys Berlin yn nhalaith Wisconsin. Bu wedyn yn gofalu am amryw o eglwysi Cymraeg yn y dalaith, ac yn eu plith Eglwys Rosendale, ac yno y bu farw ym 1888.

Wrth sôn am Evan Owen yn mudo i U.D.A. diddorol yw crybwyll fod ei gymdogion o Gwarcwm Bach, Hugh ac Elizabeth Jones, rhieni Humphrey Jones y Diwygiwr, wedi ymadael am Waukesha, Wisconsin rhyw ddwy flynedd o'i flaen, a'u mab enwog yn eu dilyn ym 1852. Symudodd y teulu yr un pryd i Sefydliad Cymreig Oshkosh, ac yno y buont yn amaethu weddill eu dyddiau yn ymyl Rosendale lle'r oedd Evan Owen yn weinidog. Mae'n siŵr fod cymdogion y ddau Warcwm wedi adnewyddu cyfeillgarwch a phwy a wyr nad dylanwad Evan a barodd i Humphrey ddechrau pregethu. Gwnaeth Humphrey argraff fawr fel pregethwr ar y Cymry alltud cyn iddo ddychwelyd i Dre'r-ddôl heb ei deulu. Lletyodd yn nhafarn yr 'Half-Way' oherwydd yno, gyda'i dad-cu Hugh Rowlands a'i fam-gu Elizabeth, y cartrefodd wedi i'w rieni ymfudo.

Trannoeth ei ddychweliad gofynnwyd i Humphrey Jones weddio yn angladd William James, Llannerch, 82 oed, a dywedir mai'r weddi honno rododd gychwyn i Ddiwygiad 1859 pan fu mab Gwarcwm Bach yn cerdded y wlad yn cynnau'r fflam yng nghwmni Dafydd Morgan, Ysbyty Ystwyth. O gofio i Ddiwygiad 1859 gychwyn mewn angladd dylai hynny'n calonogi yn yr hirlwm ysbrydol yn y Gymru ryfedd sydd ohoni. Diolchwn am lafur Evan Gwarcwm Uchaf a Humphrey Gwarcwm Bach. W.J.Edwards



Os Mets



Cynhaliwyd gweithdy cardiau Nadolig dan arweiniad Ruth Jen yn y Neuadd Goffa, nos Fercher, Rhagfyr 1af. Braff oedd croesawu Efan Williams, Swyddog Ieuencid yr ofalaeth atom. Bydd y cardiau'n cael eu cyflwyno i drigolion Afallen Deg a Thregerddan mewn noson o ganu carolau.

Taith Cymdeithas Edward Llwyd – Ysbryd y Mwynwyr

Am yr eildro yn ystod yr hydref eleni, bu aelodau Cymdeithas Edward Llwyd ar daith yn nalgylch Papur Pawb. Ddydd Sadwrn 13 Tachwedd, cychwynnodd mintai o ryw 20 o'r Patshyn Glas yn Nhal-y-bont i ddilyn llwybr Ysbryd y Mwynwyr. Arweinwyd y daith oedd Richard a Bethan Hartnup, Bow Street.

Aethom hyd y ffordd fetlin i Dy'n-y-graig cyn dringo'r llethrau y tu ôl i'r fferm i ddilyn llwybr braf uwchben Cwm Ceulan. Roedd y cawodydd cynnar wedi cilio ac roedd hi bellach yn fore delfrydol i weld holl olygfeydd y fro yn eu gogoniant.

Ar ôl ychydig dyma droi i'r gogledd a chydio Moel y Garn ar y llaw dde dilynwyd y llwybr sy'n croesi'r ffordd rhwng Bedd Taliesin a Chaer-arglwyddes, cyn mynd i lawr i War-cwm.

O'r tu ôl i War-cwm mae arwyddbost yn dangos y ffordd draw i Gwm Cletwr – braid yn lleidiog ar ôl glaw trwm ond yn werth yr ymdrech bob cam. Mae'r golygfeydd yn ddiguro. Cawsom ginio'n edrych draw dros afon Dyfi a bryniau de Meirionnydd.

Cefn Erglodd
(Chwith. Llun Nigel Callaghan)

Wedyn aed ymlaen i flaen Cwm Cletwr gan ddisgyn gyda gofal mawr ar hyd y llwybr i lawr y cwm gan fod trwch o ddail dros greigiau gwlyb yn golygu ei fod yn beryg bywyd mewn mannau.


Islaw dyma ni'n troi'n ôl i gyfeiriad y de a dilyn y lôn trwy goed Erglodd uwchben Tre Taliesin, Dringo'n serth wedyn i'r chwith trwy'r goedwig nes cyrraedd y caeau bach hyfryd o dan Gefn Erglodd, yr hen ffermdy sydd bellach yn adfail ar ben y bryn, lle y cafwyd mwy byth o olygfeydd godidog cyn dychwelyd i Dal-y-bont erbyn canol y prynhawn.

Mae Cymdeithas Edward Llwyd – Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru – yn gymdeithas weithgar iawn gyda hyd at 4 o wahanol grwpiau'n cerdded ym mhob cwr o Gymru bob wythnos. Cymdeithas i naturiaethwyr yw hi yn ei hanfod ond mae'r teithiau'n cyflwyno pob math o agweddau ar hanes lleol a bywyd gwyllt yn y Gymru wledig, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn cwmni gwych. Os am fwy o fanylion ewch at <http://www.cymdeithasedwardllwyd.org.uk/> M.D.

Chwaraeon



**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gollmanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Colli yn y Gwpan

Mae'r tywydd wedi amharu ar chwaraeon yr ardal yn ddiweddar ond cyn i'r eira ddisgyn ar Gae'r Olyn Galch, cafodd Tal-y-bont y cyfle i greu marc yng nghystadleuaeth Cwpan Emrys Morgan, mewn gêm a chwaraewyd ar ddydd Sadwrn 13 Tachwedd. Roedd Tal-y-bont wedi ennill y gystadleuaeth hon ychydig flynyddoedd yn ôl ond yn anffodus chwaraeodd Pen-y-bont, tîm o ochrau Llandrindod, yn well ar y diwrnod. Ildiwyd goliau gwael gan amddiffyn simsan Tal-y-bont a'r sgôr ar y diwedd oedd Pen-y-bont 6 Tal-y-bont 2.

*Dominic Jenkins (ail o'r chwith)
yn sgorio un o goliau Tal-y-bont yn
erbyn Pen-y-bont. (Uchod)*

**Gwasanaeth Scario
ARTHUR MORGAN**



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292



Wyn Hopkins yn cael ei guro yn yr awyr gan un o amddiffynwyr Pen-y-bont

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch
ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth



NFU Mutual
INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 111982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.